# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(125)v4

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (30 munud)

### 4. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter (30 munud)

### 5. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardrethi Busnes (30 munud)

### 6. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Heb ei Drefnu (30 munud)

### 7. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid (30 munud)

### 8. Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Diddymu'r cyrff sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol – gohiriwyd tan 30 Ebrill 2013 (30 munud)

### 9. Dadl: Gofal Diwedd Oes (60 munud)

**NDM5209 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i wella gwasanaeth gofal diwedd oes; a

2. Yn nodi Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes.

Mae'r ddogfen Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes ar gael drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/end-of-life/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal diwedd oes o safon uchel yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod cyfraniad y mudiad hosbis, a darparwyr gofal eraill, tuag at ofal diwedd oes o safon uchel.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd parchu dymuniadau cleifion wrth ddarparu gofal diwedd oes.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r manteision y gall taliadau uniongyrchol eu cynnig i wella profiad y claf ar gyfer pobl sy'n cael gofal diwedd oes.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd toriadau termau real i'r gyllideb iechyd yn llesteirio'r cynnydd o ran gwella gofal diwedd oes yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu'i chyllidebau i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

**Cyfnod Pleidleisio**

**10. Dadl Fer - gohiriwyd ers 20 Mawrth 2013 (30 munud)**

**NDM5208 Ken Skates (De Clwyd):** Y tu hwnt i Fae Caerdydd - Rôl newidiol cyfryngau lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013